OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2007 Rhif 3423 (Cy.304)

CEFN GWLAD, CYMRU

Gorchymyn Awdurdodau Parciau Cenedlaethol (Cymru) (Diwygio) 2007

Gwnaed - - - -	*4 Rhagfyr 2007*
Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -	*5 Rhagfyr 2007*
Yn dod i rym - -	*31 Rhagfyr 2007*

Mae Gweinidogion Cymru, ar ôl ymgynghori â'r cyngor ar gyfer y brif ardal y mae rhan ohoni'n rhan o Barc Cenedlaethol Arfordir Penfro, a chan arfer y pwerau a roddwyd gan adrannau 63(1) a (5) o Ddeddf yr Amgylchedd 1995(**1**) a pharagraffau 1(2) a 2(3) o Atodlen 7 iddi ac sydd bellach wedi'u breinio ynddynt hwy (**2**), yn gwneud y Gorchymyn canlynol:

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Awdurdodau Parciau Cenedlaethol (Cymru) (Diwygio) 2007.

(2) Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 31 Rhagfyr 2007 ac mae'n gymwys o ran Cymru.

Dehongli

2. Yn y Gorchymyn hwn —

ystyr "y prif Orchymyn" ("*the principal Order*") yw Gorchymyn Awdurdodau Parciau Cenedlaethol (Cymru)1995(**3**).

Diwygio Gorchymyn Awdurdodau Parciau Cenedlaethol (Cymru) 1995

3.—(1) Diwygir y prif Orchymyn yn unol â'r paragraffau canlynol.

(2) Yn Rhan I o Atodlen 2 i'r prif Orchymyn, yn lle—

(**1**) 1995 p.25. *Gweler* adran 79(1) am y diffiniad o 'prif ardal'.

(**2**) Trosglwyddwyd y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adran 63(1) a (5) o Ddeddf yr Amgylchedd 1995 a pharagraffau 1(2) a 2(3) o Atodlen 7 iddi, i'r graddau y maent yn arferadwy o ran Cymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan erthygl 2 o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999, O.S. 1999/672, ac Atodlen 1 iddo. Yn rhinwedd adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r swyddogaethau a roddwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru.

(**3**) O.S. 1995/2803